Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Awst/Medi
2013
Rhifyn 199

Oedfaon y Sul

4 Awst - Bore a Hwyr: **Uno yn Salem**

11 Awst - Bore a Hwyr: **Uno yn Salem**

18 Awst - Bore yn unig: **Y Parchg Ddr Huw John Hughes**

25 Awst - Bore a Hwyr: **Y Parchg Eifion Roberts, Aberystwyth**

1 Medi - Bore: **Gweinidog** (Bydd Bwrdd Masnach Dêg yn y Cyntedd)
Hwyr: **Uno yn Salem**

8 Medi - Bore a Hwyr: **Y Parchg Robert Parry, Wrecsam**
Derbynnir rhoddion tuag at y banc bwyd

15 Medi - Bore a Hwyr: **Sul Undebol y Cyngor Eglwysi**
Derbynnir rhoddion tuag at y banc bwyd

22 Medi - Bore a Hwyr: **Y Parchg Dewi T. Morris, Porthmadog**

29 Medi - Bore a Hwyr: **Y Parchg Iwan Llywelyn Jones, Porthmadog**

Digwyddiadau Mis Medi

Nos Lun 9 Medi (7pm): **Cymdeithas Chwiorydd Seilo**
Brenda Wyn Jones yn rhoi sgwrs ysgafn ar yr ifaciwîs

Dydd Llun 16 Medi: **Deunaw o Weinidogion o Shillong a Bryniau Casia yn ymweld â Chaernarfon ac Eglwys Seilo**

Dydd Iau 26 Medi: **Encil Chwiorydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd yn y Bala**

Nos Fawrth 24 Medi (7pm) **- Noson yng Nghapel Caeathro i drafod y modd o ddefnyddio mynwentydd gyda golwg ar gadwraeth a hanes ac ati**

Nos Lun 30 Medi (7pm) **- Trafodaeth bellach dan arweiniad y Parchg Marcus Robinson ar argymhellion Cyd-gynulliad yr Eglwysi Cyfamodol ynghylch ffurfio 'Eglwys sydd yn Uno'. Croeso i bawb.**

Taro Mewn - bob bore Mawrth o'r 10 Medi yn Salem (10 -11am)
Y Gell Weddi - bob dydd Iau o'r 12 Medi (10.30am)

Y Bont Awst/Medi 2013

Oedfaon Awst

4 Uno yn Salem
11 Uno yn Salem
18 Parch Ddr Huw John Hughes (oedfa'r bore'n unig)
25 Parch Eifion Roberts, Aberystwyth

Oedfaon Medi

1 Gweinidog (10). Uno yn Salen (5) / Bwrdd Masnach Dêg
8 Parch Robert Parry, Wrecsam / Bancbwyd
15 Sul Undebol y Cyngor Eglwysi / Bancbwyd
22 Parch Dewi T Morris, Porthmadog
29 Parch Iwan Llywelyn Jones, Porthmadog

Digwyddiadau

9 Nos Lun (7pm) Cymdeithas Chwiorydd Seilo. Brenda Wyn Jones yn rhoi sgwrs ysgafn ar yr ifaciwîs

16 Deunaw o weinidogion o Shillong / Bryniau Casia yn ymweld â Chaernarfon / Seilo

29 Encil Chwiorydd Cymdeithasfa'r Gogledd yn y Bala

Taro Mewn/ 10 Medi
Cell Weddi / 12 Medi

Am Eiliad

Wedi hir ddyfalu beth fyddai enw plentyn cyntafanedig William a Kate, cyhoeddwyd mai enw'r tywysog a'r trydydd yn y llinach brenhinol, fyddai *George Alexander Louis*. Roedd amryw yng

Nghymru wedi gobeithio y byddai 'Dafydd' neu 'David' yn rhan o'r enw gan fod ei rieni wedi treulio cyfnod yn Sir Fôn. Beth bynnag am hynny, mae un peth yn sicr, byddwn yn clywed llawer o sôn am y bychan hwn yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Clywais si y bydd yn ymweld â Phrimin Môn yng nghwmni ei rieni, ond peidiwch â dweud wrth neb, rhag ofn!

Onid ydi enwau yn destun diddorol? Ac onid yw dewis enw ar blentyn yn gyfrifoldeb arurthrol i bob rhiant, oherwydd bydd rhaid i'r bychan fyw efo'r enw hwnnw am weddill ei oes. Byddaf yn rhyfeddu ambell dro at ambell i enw neu enwau a roddir ar blant. Clywais yn ddiweddar am rieni yn methu dewis rhwng Jemeima, Angharad, Georgina, Leila a Rose, a dyma benderfynu cynnwys y cyfan ynghŷd â'r cyfenw! Bu'n ffasiynol ar hyd y canrifoedd i enwi plentyn ar ôl aelod o'r teulu ond erbyn heddiw rhoddir enwau chwaraewyr pêl droed a sêr y byd pop ar blant. Mae'n debyg y gwelwn ni sawl 'George' yn ymddangos yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf!

Mae enwau Beiblaidd o hyd yn boblogaidd ac rwy'n adnabod mwy nag un Daniel a sawl Aaron a Sara. Maes diddorol yw ymchwilio i darddiad ac ystyr enwau priod. Ystyr 'Daniel' yw 'Duw yw fy Marnwr', ac ystyr 'Aaron' yw 'Mynydd Uchel'. Wrth enwi ei blentyn gobeithiai'r Hebrëwr y byddai'r plentyn hwnnw yn arddangos nodweddion ystyr yr enw. Tarddiad Groegaidd sydd i'r enw Siôr, a'i ystyr yw 'amaethwr', un sy'n trin y tir.

Weithiau cynhelir 'Seremoni Enwi' mewn gwesty yn hytrach na bedydd mewn eglwys, a rhydd hynny gyfle i gadarnhau enw'r baban a dathlu ei ddyfodiad i'r byd. Nid seremoni, ond Sacrament yw Bedydd, gyda rhieni'r plentyn bach yn addo ger bron Duw ddarparu aelwyd Gristnogol iddo a'i dywys i adnabod Iesu Grist, hyd nes daw'n ddigon hen i wneud y fath ddewis drosto'i hun. Trwy fedydd cyflwynir y baban i gymdeithas yr Eglwys, cymdeithas o bobl yr Arglwydd Iesu Grist, yr un yr ysgrifennodd Paul amdano fel hyn:

"...tra dyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw, fel wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear, ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad".

(Philipiaid 2: 9-11)

Gwenda Richards

Blodau'r Capel

Dyma'r rhai fydd yn gyfriol am flodau'r capel yn ystod mis Awst: **Mrs Helen Jones,** Bod Hyfryd (18); **June Jones ac Ilid Angel** (25); Mis Medi: Rhianwen Williams (1); **Mrs Margaret Morris Jones a Mrs Edwina Morris** (8); **Mrs Marian Parry Jones** (15); **Mrs Ceri Humphreys** (22); **Mrs Gwenno Williams** (29)

Apêl Guatemala

Pleser mawr fu gweld y Parchedig Catrin Roberts, cydlynydd Apêl Guatemala, yn cyflwyno siec o £233,391 i Cathrin Daniel, cyfarwyddwraig Cymorth Cristnogol yng Nghymru, yn y Gymanfa Gyffredinol a gynhaliwyd yn Aberystwyth ym mis Gorffennaf. Diolchir i bawb a gyfranndd mor hael tuag at yr apêl deilwng hon.

Oedfa Bore Sul 21 Gorffnnaf

Emyn 274
Gweddi
Cyhoeddiadau a Casgliad (at Ambiwlans Awyr)
Gair byr gan y Gweinidog
Croeso gan Richard Ellis
Emyn 397
Darllen: Mathew 4: 18-22 a Mathew 5:13-16 (Sara a Huw)

Côr Seilo

Darllen: Mathew4: 18-22 a Mathew 5: 13-16 (Llydaweg)

Côr Landerneau

Anerchad byr

Côr Pensiynwyr Porth yr Aur - Benedictus

Emyn 871
Y Fendith